# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1600(FM) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ar 22 Mehefin 2006

**At Irene James:**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Mehefin parthed y cynigion i newid trefniadau criwio gorsaf dân Aber-carn a chyfuno gorsafoedd tân Cefn Fforest a Bargod. Gwn ichi godi'r materion hyn yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 6 Mehefin, gyda'r Prif Weinidog yn dweud y byddwn yn cysylltu â chi parthed eich pryderon.

Ynghylch y cynigion am Fargod a Chefn Fforest, nodaf yn y ddogfen ymgynghori i'r awdurdod nodi, pe bai'n ystyried darpariaeth tân o'r newydd, na chynigir cael dwy orsaf filltir ar wahân. Deallaf fod y sefyllfa wedi codi am resymau hanesyddol, gan i'r ddwy orsaf ddod o dan awdurdodau tân gwahanol ac wedyn ddod yn rhan o Awdurdod Tân De Cymru pan grëwyd ef yn 1996.

Lle bo Aber-carn yn y cwestiwn ar hyn o bryd, ni wnaf sylw gan fod disgwyl rhesymol i'r orsaf dân, er ei bod y tu allan i Flaenau Gwent, gyflenwi peth darpariaeth o fewn ardal Blaenau Gwent. O ystyried yr etholiadau cyfredol sy'n cael eu cynnal, bwriaf ei bod yn amhriodol i ymateb y foment hon. Er hynny, nodaf eich bod yn cyfeirio at Fryn-mawr fel gorsaf amser llawn, ond mae hi mewn gwirionedd yn orsaf dyletswydd rhan amser. Mae personél rhan amser yn 36 y cant o ymladdwyr tân yr awdurdod, gan griwio 26 gorsaf ran amse,r gyda chyflenwad staff llawn mewn llawer ohonynt, a hynny heb brofi problemau gydag argaeledd personél.

Yn ogystal, mae'r cynigion a geir yn y cynllun ar hyn o bryd yn destun i'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Mae ein canllawiau ar gyfer cynlluniau lleihau risg yn gofyn i'r awdurdodau ymgynghori â'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr, sefydliadau cymunedol, busnesau a gweithwyr. Unwaith y daw'r ymgynghoriad i ben ar 31 Awst, gofynnir i'r awdurdod tân ac achub ystyried yn llawn yr holl ymatebion cyn drafftio'i gynllun lleihau risg. Mae'n debyg felly y bydd rhai neu'r cyfan o'r cynigion yn agored i eglurhad pellach ac/neu newid. Mae awdurdodau tân ac achub yn gyrff ymreolaethol â chyfrifoldeb statudol i sicrhau darpariaeth ar gyfer tân ac achub yn eu hardaloedd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad. Ar yr adeg hon, nid yw'n addas felly imi ymdrin â'r cynigion, sy'n destun trafodaeth gyhoeddus gyfredol.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ1600(FM), gan Rhodri Morgan, y Prif Weinidog

**At Nick Bourne:**

Yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Mehefin, gofynasoch imi ddweud pryd y daeth Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol o'r sefyllfa statudol ynglŷn â darparu gofal cartref am ddim i bobl anabl. Addewais wirio'r manylion ac ysgrifennu atoch.

Mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i godi tâl am wasanaethau gofal cartref o dan Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 ar yr amod ei bod yn 'rhesymol ymarferol' i'r person y codir tâl arno dalu. Nid yw'r Ddeddf honno yn darparu pŵer i reoleiddio'r weithred o godi tâl, ond yn y gorffennol yr ydym wedi defnyddio pŵer cyffredinol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 i gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar eu trefniadau o ran codi tâl. Mae hyn yn cynnwys gofyniad bod defnyddwyr gwasanaethau, ar ôl i dâl gael ei godi, ag o leiaf lefel

warantedig o incwm uwchlaw lefelau'r Cymhorthdal Incwm a bod enillion wedi'u heithrio rhag cael tâl wedi'i godi arnynt. Y cwestiwn oedd a ellid ymestyn y defnydd o'r canllawiau statudol o dan Ddeddf 1970 i weithredu'r polisi gofal cartref am ddim.

Nid oedd y mater yn glir a gofynnwyd felly am gyngor cwnsler. Ei farn ef, a ddaeth i law yn Rhagfyr 2003, oedd, i bob pwrpas, na fedrem ddibynnu ar ein pwerau o dan Ddeddf 1970. Fodd bynnag, yr oedd yn fodlon y gallem sefydlu cynllun grant lle mai un o amodau'r grant fyddai nad oedd awdurdod lleol yn codi tâl am wasanaethau penodedig ac y gellid tynnu'r grant yn ei ôl pe gwnâi hynny. Fe gofiwch fy nghyfeiriad at 'y gosb a'r abwyd' yn ystod ein trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn. O'r cychwyn, fwy neu lai, yr ydym wedi ceisio gweithredu polisi gofal cartref am ddim drwy ddilyn y trywydd hwn. Ceir llawer o enghreifftiau eraill lle'r ydym wedi gweithio'n greadigol gyda llywodraeth leol i gyflwyno menter heb ddibynnu ar bwerau penodol.

Yn groes i unrhyw argraff yr ydych, o bosibl, wedi ei gael o'r adroddiad camarweiniol yn y *Western Mail*, mae hyn oll wedi bod yn eiddo i'r cyhoedd ers cryn amser ac nid ydym erioed wedi ceisio ei guddio. O ran sefydlu'r grŵp gorchwyl yn gynnar yn 2004 yr oeddem yn gwbl agored gyda'r sefydliadau yn cymryd rhan (a oedd yn cynnwys sefydliadau a gynrychiolir ar y glymblaid ar godi tâl) ac eglurwyd y sefyllfa'n glir iddynt ac fe'i cofnodwyd yn adroddiad y grŵp ar ei waith. Yr oedd cylch gwaith y grŵp yn cynnwys nodweddion cynllun grant a fyddai'n gweithredu'r polisi. Nodwyd y sefyllfa hefyd yn gwbl bendant yn y datganiad Cabinet a gyhoeddwyd gan Brian Gibbons ar 21 Mawrth 2005 i holl Aelodau'r Cynulliad.

Yr oedd hi'n ymddangos hefyd bod y *Western Mail* yn awgrymu mai dim ond oherwydd nad oedd gennym bŵer statudol penodol i weithredu gofal cartref am ddim y byddai'n rhaid inni dalu awdurdodau lleol i weithredu'r cynllun. Mae hyn yn nonsens. O dan unrhyw drefniant statudol neu anstatudol byddai'n rhaid inni fod wedi ariannu llywodraeth leol ar gyfer costau llawn rhoi'r polisi ar waith.

Yr wyf yn anfon copi o'r llythyr hwn i holl Aelodau'r Cynulliad.